

Polisi Ffonau Symudol

Nod

Mae gan bob ysgol ddyletswydd bugeiliol tuag at ei disgyblion a thrwy hynny, mae'r ysgol hon yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i'w disgyblion.

Mae'r ysgol hon o'r farn fod bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio.

O ganlyniad ni ellir caniatáu defnyddio ffonau symudol gan ddisgyblion tra ar safle'r ysgol.

Trefn Ddisgyblu

Y tro cyntaf y byddai disgybl yn defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r ysgol:-

- bydd yr aelod o staff yn cadw'r ffon hyd diwedd y wers
- bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn, wedi'i diffodd, mewn man ddiogel a ddarperir gan yr ysgol i'r pwrpas hwnnw
- bydd y ffôn yn cael ei ddychwelyd i'r disgybl ar derfyn y diwrnod ysgol
- ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gyflwr y ffon.
- mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr ysgol

Yr ail dro y byddai disgybl yn defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r ysgol

- bydd yr aelod o staff yn cadw'r ffon hyd diwedd y diwrnod ysgol
- bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn, wedi'i diffodd, mewn man ddiogel a ddarperir gan yr ysgol i'r pwrpas hwnnw.
- Bydd yr ysgol yn gofyn i riant y disgybl ddod i gaslgu'r ffon o dderbynfa'r ysgol ar derfyn y diwrnod ysgol.
- ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gyflwr y ffon.
- mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr ysgol

Mi fydd yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth rheini, disgyblion a staff o safbwynt y llywodraethwyr.

Yr Ochr Gyfreithiol –

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anwedus neu fygythiol i unrhyw berson, boed yn llythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.

Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu ddirwy hyd at £5000.

Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais y cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd